



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG43849

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Y Dreth Gyngor

Cael gwared ar atebolrwydd am dalu'r dreth gyngor, ar y cyd ac yn unigol, i unigolion cymwys sy'n gadael gofal

Mawrth 2022

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael gwared ar atebolrwydd am dalu'r dreth gyngor, ar y cyd ac yn unigol, i unigolion cymwys sy'n gadael gofal.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Polisi'r Dreth Gyngor
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGFR.Consultations@llyw.cymru

Copiau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y dogfennau ymgynghori:

[Cael gwared ar atebolrwydd unigolion cymwys sy'n gadael gofal am dalu'r dreth gyngor | LLYW.CYMRU](#)

CYNNWYS

Rhagymadrodd.....	4
Yr Ymgynghoriad	4
Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?.....	4
Crynodeb o'r Ymatebion.....	4
Ymateb Llywodraeth Cymru	7
Y Camau Nesaf.....	7
Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr	8

Rhagymadrodd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys eu cynorthwyo wrth iddynt dyfu'n oedolion a byw'n annibynnol.

Roedd yr ymgynghoriad [Cael gwared ar atebolrwydd unigolion cymwys sy'n gadael gofal am dalu'r dreth gyngor](#) yn ystyried:

- y cynnig i ddileu'r risg i unigolion cymwys sy'n gadael gofal o ran bod yn atebol am dalu'r gyngor pan fo person arall (nad yw wedi'i eithrio) ar yr aelwyd yn methu â thalu ei dreth gyngor;
- cynnig i ddiwygio deddfwriaeth i roi esemptiad rhag yr atebolrwydd hwn i unigolion cymwys sy'n gadael gofal o 1 Ebrill 2022.

Yr Ymgynghoriad

Ceisiwyd barn fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos o hyd a ddechreuodd ar 20 Awst 2021 ac a ddaeth i ben ar 17 Tachwedd 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â'r bwriad polisi a'r ddeddfwriaeth, ynghyd â chwestiynau safonol ar y Gymraeg. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu Saesneg. Dim ond i Gymru roedd yr ymgynghoriad yn berthnasol. E-bostiwyd y ddolen i'r ymgynghoriad at amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau cynrychioliadol, awdurdodau lleol ac asiantaethau rheoli dyledion.

Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?

Cafwyd cyfanswm o 26 o ymatebion, gan gynnwys rhai a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau. Mae'r holl ymatebion hyn wedi cael eu hystyried a'u dadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau buddiant. Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r mathau o ymatebwyr.

Math	Nifer
Cyrff cynrychioliadol, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau	12
Awdurdodau lleol	7
Unigolion preifat	6
Gofalwr maeth	1

Ceir rhestr o'r ymatebwyr, heblaw'r rhai a ofynnodd am gael bod yn ddiennw, yn Atodiad A. Os yw ymatebwyr wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi eu manylion, maent yn ymddangos fel 'Dienw' er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Crynodeb o'r Ymatebion

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio casglu pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn pum cwestiwn, a cheir crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn isod. Ni wnaeth pob ymatebydd ymateb i bob cwestiwn. Rhoddodd rhai ymateb cyffredinol yn hytrach nag

ateb cwestiynau penodol. Yn yr achosion hyn, mae'r ymateb wedi cael ei gynnwys o dan y cwestiwn mwyaf priodol neu yn y crynodeb o'r ymatebion i Gwestiwn 5.

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â bwriad y polisi i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal? Nodwch eich rhesymau.

Ymatebodd pob un o'r 26 ymatebydd i'r cwestiwn hwn. Roedd 25 ohonynt yn cytuno â'r cynnig. Y themâu cyffredin oedd:

- sefyllfa fregus ychwanegol y rhai sy'n gadael gofal;
- diffyg addysg ariannol a sgiliau cyllidebu'r rhai sy'n gadael gofal.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dylid rhoi'r cymorth sydd ei angen ar y rhai sy'n gadael gofal i ffynnu fel oedolion a byddai'r polisi hwn yn gam tuag at roi iddynt ganlyniadau cyfartal â'u cymheiriaid.
- Ni ddylai pobl ifanc sy'n trosglwyddo o ofal fod yn atebol am y dreth gyngor am fod eraill yn methu â thalu.
- Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn aml hefyd yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Mae deddfu i amddiffyn pobl sy'n gadael gofal rhag y dreth gyngor yn un ffordd y gellir lliniaru'r heriau ariannol hyn.

Cwestiwn 2

Rydym wedi cynnig gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Ydych chi'n cytuno â hyn, neu a allwch chi awgrymu opsiwn arall?

Atebodd pob un o'r 26 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roeddent yn cytuno â'r cynnig. Ni awgrymwyd unrhyw ddulliau amgen. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Byddai deddfu i roi'r amddiffyniad hwn yn sicrhau nad oes amheuaeth y dylai'r rhai sy'n gadael gofal gael eu heithrio o'r dreth gyngor... a rhoi sicrwydd bod angen i'r rhai sy'n gadael gofal reoli eu harian a dechrau adeiladu eu bywydau'n annibynnol.
- Byddai newidiadau i ddeddfwriaeth yn rhoi'r cysondeb angenrheidiol ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru a'r amddiffyniad angenrheidiol drwy'r gyfraith i bob person sy'n gadael gofal.
- Diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol fyddai'r dull cywir o gael gwared ar atebolrwydd am dalu'r dreth gyngor, ar y cyd neu'n unigol, i bobl ifanc â phrofiad o ofal. Byddai gwneud hynny'n sicrhau cysondeb ar draws y 22 ardal awdurdod lleol... rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth am gael gwared ar yr atebolrwydd ar gael ar eu gwefannau a'i bod yn cael ei chyfleu'n glir.

Cwestiwn 3

Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Cafwyd 16 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd y mwyafrif o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na'i defnydd.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Mae hwn yn newid technegol sy'n effeithio ar nifer gymharol fach o bobl. Ni fyddai unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg ac nid oes rheswm pam y dylai drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Croesewir unrhyw gyfle i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, er mwyn galluogi materion polisi i gael statws ac ymateb cyfartal, a chadarnhau ymrwymiad i'r iaith.

Cwestiwn 4

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ni chodwyd unrhyw bryderon y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n andwyol ar y Gymraeg. Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymgynghoriad.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Gellid sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol drwy sicrhau bod crynodebau personol o'r polisi newydd ar gael yn Gymraeg ochr yn ochr ag ieithoedd eraill.
- Mae angen gweld y cynnig yng nghyd-destun menter gan Lywodraeth Cymru a dylid ystyried y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg gyda pharch a gwerth cyfartal.

Cwestiwn 5

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Roedd Cwestiwn 5 yn rhoi'r cyfle i godi unrhyw faterion cysylltiedig nad oedd y cwestiynau eraill wedi ymdrin â nhw'n benodol. Cafwyd deg o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Soniodd ymatebwyr am yr angen i gael mwy o gymorth i'r rhai sy'n gadael gofal. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn ymwybodol o'r ddarpariaeth.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Dylai dadansoddiad cyffredinol adlewyrchu'r cynnig hwn fel cam pellach, fel mesur ymarferol amlwg yn ymrwymiad llywodraeth genedlaethol a lleol i blant

sy'n gadael gofal, gan gydnabod yr heriau economaidd a seicolegol i'r rhai sy'n gadael gofal a chyflwyno un her yn llai i'w hwynebu.

- Byddai diwygio'r Rheoliadau yn sicrhau bod yr holl unigolion sy'n gadael gofal, gan gynnwys y rhai a allai gael eu dal yn atebol ar y cyd ac yn unigol am y dreth gyngor, yn cael eu cefnogi'n llawn i reoli'r newid cymdeithasol ac ariannol wrth symud o ofal i fyw'n annibynnol.
- Yn ogystal â'r newidiadau sydd i'w gwneud i gael gwared ar atebolrwydd unigolion sy'n gadael gofal am dalu'r dreth gyngor, mae angen gwneud mwy o waith ar gymorth ariannol i bobl ifanc yng Nghymru sydd wedi cael profiad o ofal.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae eich barn yn bwysig er mwyn llywio penderfyniadau am y dreth gyngor yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn ac yn arbennig i'r bobl sydd wedi ymateb iddo. Gan mai crynodeb yw'r ddogfen hon, mae'n bosibl nad yw'r holl faterion a amlinellwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn. Mae pob un o'r ymatebion wedi cael ei ystyried ac nid yw absenoldeb materion neu awgrymiadau yn y crynodeb hwn yn golygu eu bod wedi cael eu diystyru. Gall llawer o faterion barhau i fod yn berthnasol i'n rhaglen waith ehangach sy'n cael ei chynnal i wneud y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig.

Mae'r safbwyntiau'n cefnogi'r cynnig i gael gwared ar atebolrwydd unigolion cymwys sy'n gadael gofal, hyd at 24 oed a chan gynnwys yr oedran hwnnw, am dalu'r dreth gyngor ar y cyd neu'n unigol.

Mae'r safbwyntiau hefyd yn cefnogi newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol.

Y Camau Nesaf

Bydd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ochr yn ochr â'r crynodeb hwn o'r ymatebion a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth berthnasol.

Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

Barnardo's Cymru

Plant yng Nghymru

Comisiynydd Plant Cymru

Cymdeithas y Plant

Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot

FABRIC: Cymuned y Rhai sy'n Gadael Gofal

Cyngor Sir y Fflint

Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw

NYAS Cymru (Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Rhwydwaith Cymunedau Diogelach Cymru

Gofalwr maeth

Unigolyn preifat

Dienw x 13